

Gwneud i bob llais gyfrif

Ein cynllun cydraddoldeb 2021 i 2022



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Fwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Gwneud i bob llais gyfrif. Ein Cynllun Cydraddoldeb 2021-2022'.

Awst 2021

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod chi angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bod y geiriau mewn **glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 20**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru a'r 7 Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru**.



Am ragor o wybodaeth neu i gael y ddogfen yma mewn ffurf arall, cysylltwch â:

Gwefan: www.bwrddcic.gig.cymru/

E-bost: enquiries@waleschc.org.uk

Ffôn: 02920 235 558



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

| | |
|--|-----------|
| Amdanom ni..... | 4 |
| Am y cynllun yma..... | 5 |
| Ein nodau ar gyfer 2021 i 2022..... | 7 |
| Y geiriau rydyn ni'n eu defnyddio..... | 8 |
| Canolbwyntio ar gydraddoldeb yn ein holl waith..... | 9 |
| Gwneud ein gwaith arferol..... | 9 |
| Darganfod gwell ffyrdd o weithio..... | 11 |
| Cefnogi ein staff a gwirfoddolwyr..... | 12 |
| Gwella ein cyfathrebu..... | 14 |
| Dweud eich dweud..... | 16 |
| Sut i gysylltu â ni..... | 17 |
| Sut i gysylltu â'ch CIC lleol..... | 17 |
| Geiriau anodd..... | 20 |

Amdanom ni



Ni ydy **Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru.**



Rydyn ni wedi ysgrifennu'r cynllun yma ar gyfer **Cynghorau Iechyd Cymuned** yng Nghymru – maen nhw'n cael eu galw yn **CICau** yn fyr.



Mae 7 **CICau** yng Nghymru. Gwirfoddolwyr lleol ydyn nhw gyda chefnogaeth tîm bach o staff sydd yn cael eu talu.



Mae'r **CICau** yn gwneud yn siŵr bod pobl yn eu hardal leol yn cael dweud eu barn am eu gwasanaethau iechyd.



Ein gwaith ni ydy gwneud yn siŵr bod y 7 **CICau** yn gwneud gwaith da.



Dyma ein cynllun ar gyfer **cydraddoldeb**.

Cydraddoldeb ydy trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael yr un cyfleoedd.

Am y cynllun yma



Ein gwaith ni ydy gwneud yn siŵr bod gan bawb lais cryf a phwerus. Rydyn ni'n gweithio'n galed bob dydd i:



- wneud yn siŵr bod gan bawb lais cyfartal yn eu GIG



- gwneud yn siŵr bod pawb yn cael profiadau teg a **chyfartal** o wasanaethau gofal iechyd.



Mae gennym ni gyfrifoldeb yn ôl y gyfraith i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn **gyfartal**.



Ond rydyn ni eisiau gwneud rhagor. Rydyn ni'n gwybod bod rhai pobl a grwpiau sydd yn byw yng Nghymru ddim yn cael eu trin yn **gyfartal**.



A dros y flwyddyn ddiwethaf mae llawer o bethau wedi digwydd ar draws y byd sydd wedi dangos faint o waith maen rhaid inni ei wneud o hyd, i wneud yn siŵr bod pawb yn cael eu trin yn **gyfartal**.

Er enghraifft:



- Lladd George Floyd yn America. A'r gweiddi hyll ar chwaraewyr pêl droed ym Mhrydain.

Mae hyn yn dangos inni bod pobl yn dal i gael eu trin yn ddrwg oherwydd o le maen nhw'n dod, eu iaith, hanes, lliw croen, crefydd neu ddiwylliant. Mae hyn yn caei ei alw yn hiliaeth.



- Ac mae coronafeirws wedi bod yn waeth i rai grwpiau nag i eraill. Er enghraifft, cymunedau tlawd a grwpiau Du, Asiadd a lleiafrif ethnig.



Mae'r cynllun yma yn dweud beth byddwn ni yn ei wneud yn 2021 i 2022 i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn **gyfartal**.

Ein nodau yn 2021 i 2022



Rydyn ni eisiau i **gydraddoleb** ac **amrywiaeth** fod yn rhan o bopeth rydyn ni'n ei wneud.

Mae **amrywiaeth** yn meddwl nad ydy pobl yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o gefndiroedd gwahanol, yn gwneud dewisiadau gwahanol ac yn dda am wneud pethau gwahanol.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod hawliau pawb yn cael eu hamddiffyn.

Rydyn ni eisiau:



- gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn helpu pobl i gael eu trin yn fwy **cyfartal**



- rhoi cydraddoldeb yng nghanol ein cynlluniau a'r ffordd rydyn ni'n **gweithio**.




- Gwneud yn siŵr bod **CICau** yng Nghymru yn gweithio i safon uchel.



Fe fydd y 7 **CIC** yn dilyn y cynllun yma ac yn meddwl am anghenion pobl yn eu cymunedau.



Fe fydd anghenion cymunedau yn wahanol, mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Rhaid i **CICau** ddeall a gweithio i hyn.



Rydych chi'n gallu dysgu rhagor am waith eich **CIC** lleol drwy ddarllen Cynllun Blynnyddol eich **CIC** lleol. **Rydych chi'n gallu eu darllen yma.**

Y geiriau rydyn ni yn eu defnyddio



Rydyn ni'n gwybod bod y geiriau rydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio pobl yn gwneud gwahaniaeth. A bod gan bobl farn wahanol am ba eiriau ddylai gael eu defnyddio.



Fe fyddwn ni'n parhau i weithio gydag eraill i wneud yn siŵr ein bod ni'n defnyddio geiriau sydd orau i'r grwpiau **amrywiol** rydyn ni'n gweithio gyda nhw.

Canolbwyntio ar gydraddoldeb yn ein holl waith

Gwneud ein gwaith arferol



Fe fyddwn ni'n gweithio gydag eraill i wella ein gwasanaeth iechyd drwy wneud yn siŵr bod gan bawb lais. Yn enwedig pobl sydd fwyaf mewn perygl o gael eu trin yn annheg.



Fe fyddwn ni'n gwneud popeth rydyn ni'n gallu i stopio pobl rhag cael eu trin yn annheg drwy'r gwaith rydyn ni'n ei wneud.

Yn 2021 i 2022 fe fyddwn ni'n:



- Gweithio mewn cymunedau i glywed gan bobl sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan coronafeirws. A darganfod sut mae gwasanaethau GIG wedi bod iddyn nhw yn ystod coronafeirws.

Er enghraifft:

- plant a phobl ifanc
- pobl hŷn
- pobl sydd yn ddigartref
- pobl sydd yn dlawd iawn

- Gweithio gyda'r GIG a phartneriaid eraill i:



- wneud yn siŵr bod y GIG yn deall yn iawn sut mae newidiadau i wasanaethau yn gallu effeithio ar bobl a chymunedau



- gwneud yn siŵr bod y GIG yn newid cynlluniau sydd yn gallu meddwl bod rhai grwpiau yn cael eu trin yn llai teg nag eraill



- edrych ar bethau mae Llywodraeth Cymru a'r GIG wedi dweud eu bod nhw'n mynd i'w gwneud i ddelio â'r problemau oedd wedi codi y flwyddyn diwethaf



- gweithio gydag eraill i wneud yn siŵr bod pobl yn cael yr wybodaeth a'r cyngor diweddaraf am wasanaethau GIG. A gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gwybodaeth mewn ffordd sydd yn ateb eu hanghenion yn y ffordd orau.

Darganfod ffyrdd gwell o weithio



Fe fyddwn ni'n gweithio mewn ffyrdd fydd yn ein helpu ni i gyrraedd a chynrychioli gwahanol fathau o bobl.

Yn 2021 i 2022 fe fyddwn ni'n:



- edrych i weld ein bod ni'n meddwl am **gydraddoldeb** ac **amrywiaeth** yn ein holl waith. A chefnogi ein CICau i ddefnyddio beth rydyn ni'n ei ddysgu i wella.



- gweithio gyda chyrrff eraill i'n helpu ni i feddwl am **gydraddoldeb** pan yn cynllunio a gwneud penderfyniadau.



- gwella'r ffordd rydyn ni'n casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am **gydraddoldeb**.




- edrych i weld pa mor dda rydyn ni'n gwneud ar gynrychioli'r grwpiau sydd yn ei chael yn anodd i gael eu clywed.



- darganfod ffyrdd newydd o weithio i gyrraedd rhagor o bobl hyd yn oed. A'i gwneud hi mor hawdd â phosibl i bawb gael llais yn eu gwasanaethau GIG.

Cefnogi ein staff a gwirfoddolwyr



Mae ein staff yn cael eu cyflogi gan **Fwrdd Iechyd Addysgu Powys**. Rydyn ni'n dilyn polisiau staff **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**. A hefyd eu cynlluniau am **gydraddoldeb**.



Mae ein gwirfoddolwyr yn gweithio ar draws Cymru. Rydyn ni eisiau i'n gwirfoddolwyr fod yn **amrywiol**, fel y cymunedau rydyn ni yn eu cynrychioli.

Yn 2021 i 2022 fe fyddwn ni yn:



- cadw ein staff a'n gwirfoddolwyr yn ddiogel pan maen nhw'n gweithio yn ystod coronafeirws.



- cynnig oriau gweithio hyblyg i staff. Fel eu bod nhw'n gallu rheoli eu gwaith a'u bywyd cartref yn dda yn ystod coronafeirws. A rhoi offer maen nhw ei angen i wneud eu gwaith mewn ffydd newydd.



- cefnogi rheolwyr i edrych ar ôl **llesiant** eu timau.

Llesiant ydy unrhyw beth i wneud gyda'ch iechyd a'ch hapusrwydd.



- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n hysbysebu ein swyddi i gymunedau sydd yn cael eu gadael allan. A'i gwneud yn fwy hawdd i wirfoddolwyr gymryd rhan.



- rhoi hyfforddiant i'n staff a gwirfoddolwyr ar **gydraddoldeb**.

Gwella ein cyfathrebu



Rydyn ni eisiau rhannu gwybodaeth mewn ffordd sydd yn hawdd i bawb ei ddefnyddio a'i ddeall.

Yn 2021 i 2022 fe fyddwn ni'n:



- Cael rhywun o'r tu allan i'n corff i edrych i weld os ydy ein gwefannau yn hawdd i bawb eu defnyddio. A defnyddio beth rydyn ni'n ei ddysgu i wella'r gwefannau.



- Parhau i wneud yn siŵr bod ein staff a gwirfoddolwyr yn siarad ac yn ysgrifennu mewn ffordd sydd yn fwy hawdd ei ddeall. A gwneud yn siŵr bod ein gwybodaeth yn hawdd i'w ddarganfod a'i ddefnyddio i gymaint o bobl â phosibl.



- Defnyddio'r Gymraeg yn fwy drwy wneud pethau fel:

- cyflogi mwy o staff sydd yn gallu siarad Cymraeg
- gwneud yn siŵr pan mae pobl yn ein ffonio ni, eu bod nhw'n gallu siarad â rhywun yn Gymraeg os ydyn nhw eisiau




- Edrych i weld os ydy'r pethau rydyn ni wedi eu gwneud, fel bod ein cyfarfodydd yn fwy hawdd eu deall, wedi gweithio.

Dewud eich dweud



Rydyn ni eisiau i chi gael dweud beth rydych chi'n feddwl. Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am ein cynllun os gwelwch yn dda. Rydych chi'n gallu gwneud hyn ar unrhyw amser.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydyn ni'n gallu gwneud yn fwy neu sut mae angen inni wneud pethau'n wahanol i wella.



Fe fyddwn ni'n defnyddio beth rydych chi'n ddweud wrthyn ni lle mae angen



Rydych chi'n gallu cysylltu â ni yn y ffordd sydd orau i chi, yn cynnwys yn Gymraeg.



Sut i gysylltu â ni

Gallwch gysylltu â ni neu'ch CIC lleol. Gallwch ddod o hyd i'r manylion isod:

Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru

Cyfeiriad: 33 / 35 Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9HB

Ffôn: 02920 235558

E-bost: enquiries@waleschc.org.uk

CIC Aneurin Bevan

Cyfeiriad: Tŷ Raglan
Parc Busnes Llantarnam
Cwmbrân
NP44 3A

Ffôn: 01633 838516

E-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

CIC Cwm Taf Morgannwg

Cyfeiriad: Tŷ Antur
Parc Navigation
Abercynon
CF45 4SN

Ffôn: 01443 405830

E-bost: enquiries.ctmchc@wales.org.uk

CIC Hywel Dda

Cyfeiriad: Ystafell 5, Llawr 1af

Tŷ Myrddin
Heol yr Hen Orsaf
Caerfyrddin
SA31 1BT

Ffôn: 01646 697610

E-bost: hyweldda@waleschc.org.uk

CIC Gogledd Cymru

Cyfeiriad: Uned 11, Chestnut Court

Ffordd y Parc
Parc Menai
Bangor, Gwynedd
LL57 4FH

Ffôn: 01248 679284

E-bost: admin@waleschc.org.uk

CIC Powys

Cyfeiriad: Neuadd Brycheiniog

Ffordd Cambria

Aberhonddu

LD3 7HR

Ffôn: 01874 624206

E-bost: enquires.powyschc@waleschc.org.uk

CIC De Morgannwg

Cyfeiriad: Canolfan Fusnes ProCopy (Cefn)

Parc Tŷ Glas

Llanisien

Caerdydd

CF14 5DU

Ffôn: 02920 750112

E-bost: SouthGlam.chiefofficer@waleschc.org.uk

CIC Bae Abertawe

Cyfeiriad: Llawr 1af Ysbyty Cimla

Cimla

Castell Nedd

SA11 3SU

Ffôn: 01639 683490

E-bost: swanseabay@waleschc.org.uk

Geiriau Anodd

Amrywiaeth

Mae amrywiaeth yn meddwl nad ydy pobl ddim i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o gefndiroedd gwahanol, yn gwneud dewisiadau gwahanol neu yn dda am wneud pethau gwahanol.

Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael yr un cyfleoedd.

Llesiant

Llesiant ydy unrhyw beth i wneud gyda'ch iechyd a'ch hapusrwydd.